**LC1213**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2006

Mae’r Rheoliadau yma’n gwneud nifer o fân ddiwygiadau i Reoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2005.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwynt canlynol wedi’i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae rheoliad 3(b) yn diweddaru’r diffiniad yn Rheoliadau 2005 o "Commission Regulation 796/2004". Roedd y diweddariad yn gywir pan gafodd ei ddrafftio, ond yn ystod proses ddeddfu’r Cynulliad, mae offeryn diwygio Cymunedol arall, sef 2184/2005, wedi’i gyhoeddi. Er mwyn i’r Rheoliadau yma fod yn gywir pan gân nhw eu gwneud, dylai gweithdrefn y Memorandwm Cywiriadau gael ei defnyddio er mwyn caniatáu i’r mewnosodiad gael ei ddiwygio. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

## Sylwadau

Efallai yr hoffai’r Aelodau nodi y bydd y Mesur Diwygio Deddfwriaeth a Rheoliadau presennol, o’i ddeddfu, yn golygu na fydd angen diweddaru fel hyn. Bydd cymal 27 yn caniatáu i ddeddfwriaeth a

wneir yn unol ag adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 gyfeirio at offerynnau'r Gymuned "fel y'u diwygiwyd o dro i dro".

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 7 Chwefror 2006